## Clwb Plant Dyffryn Nantlle Cefnogaeth Cynaliadwyedd

Clwb Plant Dyffryn Nantlle, Gwynedd: The future is looking sustainably bright for Clwb Plant Dyffryn Nantlle following support from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs and funding through the CYMell project to improve the sustainability of the Club and remain open after challenging times.

### Background

Clwb Plant Dyffryn Nantlle is a Welsh, CIW registered After School Club that provides 40 spaces for the children of Ysgol Bro Lleu, Gwynedd. Supporting the working families of the community the Club is described as "a setting that provides spacious areas for children to play and learn" which is "used effectively to encourage children's development, imagination and curiosity". The club has been operating for 10 years and moved last year from a cabin to the school hall at Ysgol Bro Lleu.

Maira Lewis Manager at Clwb Plant Dyffryn Nantlle, contacted Elliw Pierce, Welsh Language Childcare Business Development Officer, in November 2024 expressing her concerns about the sustainability and the future of the club. The club have faced some challenges in recent years with the rising costs of living, reduced number of children and staffing issues, which they have found very difficult to overcome.

### CYMell Funding and Business Support

With support from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, they developed a cashflow forecast and business plan which enabled the setting to understand how many children they needed to remain sustainable in the long term.

Elliw was then able to support them to apply for the CYMell Sustainability Grant, funded through the CYMell project,available for CIW registered Welsh and Bilingual settings.

Financial support like this for Welsh and Bilingual clubs is vital in such challenging times, with changes in demand for childcare due to increased living costs for families.

"Elliw has provided the most invaluable support through the grant application. Without this extra funding it would be very hard for the setting to stay open for another year and would close."

**Impact**

Sustainability support has enabled Clwb Plant Dyffryn Nantlle to remain open and keep the cost of their services down supporting the families of the community. By working with the Welsh Language Childcare Business Development Officer, leaders have been able to clearly see their current financial situation and put things in place to ensure that they are sustainable for the future. The management has also gained in confidence and regularly reviews their finances so that they can be aware of the impact of changes and plan accordingly.

"We now have an Excel sheet (cashflow forecast) to play around with the figures to see the outcome of any rising costs such as wages. Elliw was able to assist us in the importance of continually reviewing the situation. Her knowledge and ability to make short work of the daunting task was a blessing for me. I don't think I could do it without her. I will be asking her for help while moving forward with different aspects regarding the club.

I would like to take this opportunity to thank her for all her help and hard work during the process."

**Maira Lewis, Responsible Individual**

**March 2025**

*Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.*

*www.clybiauplantcymru.org*
*info@clybiauplantcymru.org*

*029 2074 1000*
*Facebook*
*Twitter*
*Instagram*

## Clwb Plant Dyffryn Nantlle Cefnogaeth Cynaliadwyedd

Clwb Plant Dyffryn Nantlle, Gwynedd: Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair o ran cynaliadwyedd i Glwb Plant Dyffryn Nantlle o ganlyniad i gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a chyllid trwy brosiect CYMell i wella cynaliadwyedd y Clwb a pharhau ar agor ar ôl cyfnod heriol.

### Cefndir

Mae Clwb Plant Dyffryn Nantlle yn Glwb Ôl-Ysgol Cymraeg sydd wedi'i gofrestru ag AGC ac sy'n darparu 40 o leoedd i blant Ysgol Bro Lleu, Gwynedd. Wrth gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn y gymuned disgrifir y Clwb fel "lleoliad sy'n darparu ardaloedd eang i blant chwarae a dysgu ynddynt" ardaloedd a "ddefnyddir yn effeithiol i annog datblygiad, dychymyg a chwilfrydedd plant". Mae'r clwb wedi bod yn gweithredu ers 10 mlynedd ac wedi symud y llynedd o gaban i neuadd Ysgol Bro Lleu.

Cysylltodd Maira Lewis, Rheolwraig Clwb Plant Dyffryn Nantlle, ag Elliw Pierce, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Cymraeg, ym mis Tachwedd 2024 yn mynegi ei phryderon am gynaliadwyedd a dyfodol y clwb. Mae'r clwb wedi wynebu rhai heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf: costau byw cynyddol, llai o blant a phroblemau staffio, ac maent wedi ei chael yn anodd iawn goresgyn y rhain.

### Cyllid a Chymorth Busnes CYMell

Gyda chymorth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, datblygwyd rhagolwg llif arian a chynllun busnes a alluogodd y lleoliad i ddeall faint o blant oedd eu hangen arnynt i aros yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Roedd Elliw wedyn yn gallu eu cefnogi i wneud cais am Grant Cynaladwyedd CYMell, a ariannwyd drwy brosiect CYMell, sydd ar gael ar gyfer lleoliadau Cymraeg a Dwyieithog sy'n gofrestredig ag AGC.

Mae cymorth ariannol fel hyn i glybiau Cymraeg a Dwyieithog yn hanfodol mewn cyfnod mor heriol, gyda newidiadau yn y galw am ofal plant oherwydd y costau byw cynyddol sydd gan deuluoedd.

"Mae Elliw wedi darparu'r gefnogaeth fwyaf amhrisiadwy trwy'r cais am grant. Heb y cyllid ychwanegol yma byddai'n anodd iawn i'r lleoliad aros ar agor am flwyddyn arall a byddai'n cau."

**Effaith**

Mae cefnogaeth o ran cynaliadwyedd wedi galluogi Clwb Plant Dyffryn Nantlle i aros ar agor a chadw cost eu gwasanaethau i lawr, gan felly gefnogi teuluoedd y gymuned. Drwy gydweithio â'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Cymraeg, mae arweinwyr wedi gallu gweld yn glir eu sefyllfa ariannol bresennol a rhoi pethau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r rheolwyr hefyd wedi magu hyder ac yn adolygu eu cyllid yn rheolaidd fel y gallant fod yn ymwybodol o effaith newidiadau a chynllunio'n unol â hynny.

"Mae gennym bellach ddalen Excel (rhagolwg llif arian) er mwyn arbrofi gyda'r ffigyrau i weld canlyniad unrhyw gostau cynyddol megis cyflogau. Llwyddodd Elliw i'n cynorthwyo o ran pwysigrwydd adolygu'r sefyllfa yn barhaus. Roedd ei gwybodaeth a'i gallu i wneud tasg frawychus yn ysgafn yn fendith i mi. Nid wyf yn meddwl y gallwn fod wedi gwneud hebddi. Byddaf yn gofyn iddi am gymorth wrth symud ymlaen gyda'r gwahanol agweddau. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddi am ei holl gymorth a'i gwaith caled yn ystod y broses."

**Maira Lewis, Unigolyn Cyfrifol**
**Mawrth 202**

*Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.*

*www.clybiauplantcymru.org*
*info@clybiauplantcymru.org*

*029 2074 1000*
*Facebook*
*Twitter*
*Instagram*